




[www.furthermaths.org.uk/wales](http://www.furthermaths.org.uk/wales)



Astudiaeth  
Achos

Ysgol Syr Thomas  
Picton

Cyfeiriad

Queensway  
Haverfordwest  
Pembrokeshire  
West Wales  
SA61 2NX

Nifer myfyrwyr  
16 – 18 oed  
2013/14



**Astudiaeth Achos:**

## **Myfyriwr – Arkady Wey**

**Cyflwyno Mathemateg Pellach:**

Dewisais astudio Mathemateg Bellach gan fy mod eisiau astudio Mathemateg yn un o'r 5 Prifysgol uchaf yn y DU, ac yr oeddwn felly yn annhebygol iawn o dderbyn cynnig heb y cymhwyster. Hefyd, roedd yn ymddangos yn rhyfedd i beidio â dilyn y pwnc i Lefel A o ystyried fy mod am ei astudio ymhellach. Fy nghyngor wrth ddewis i astudio Mathemateg Bellach yw i wirio a oes angen y pwnc yn eich cynnig Prifysgol, ac i gadw mewn cof os nad oes gennych afael dda ar Fathemateg Lefel A, bydd Mathemateg Pellach Lefel A yn heriol iawn. Fodd bynnag, nid oes unrhyw bwnc sy'n edrych yn well os ydych yn dilyn pwnc sydd angen gallu mathemategol.

Ystyriwch y darpariaethau yn eich ysgol ar gyfer y pwnc hefyd. Nid oedd darpariaeth ar gyfer y pwnc yn fy ysgol i. Fodd bynnag, yn garedig iawn, rhoddodd rhai o'r athrawon eu hamser cinio i gyflwyno ni i gysyniadau newydd fel ein bod yn fwy cyfforddus gyda hwy erbyn i ni fynychu sesiynau FMSP yn Abertawe. Canfûm mai'r ffordd orau i ddefnyddio'r gwersi FMSP oedd fel sesiynau adolygu. Astudiais y pynciau adref nes bod meysydd clir nad oeddwn yn deall. Wedyn, pan oeddwn yn y sesiynau, gallwn ofyn set o gwestiynau oedd yn fy ngalluogi i ddeall y pwnc yn llawn. Fyddwn i ddim yn cynghori eich bod yn mynychu'r sesiynau heb unrhyw wybodaeth flaenorol o'r pynciau oherwydd gallwch fynd ar goll yn gyflym. Fodd bynnag, mae'r tiwtoriaid sy'n addysgu yn FMSP bob amser yn hapus i helpu, ac mae myfyrwyr y Brifysgol hefyd yn helpu yn y sesiynau, sydd yn ddefnyddiol!

Cefais wybod am y rhaglen trwy fy athrawon yn yr ysgol, sydd â chysylltiadau cryf gyda thiwtorïaid FMSP. Yn wreiddiol, roeddwn yn dysgu trwy eu sesiynau ar-lein. Fodd bynnag,

doeddwn i ddim bob amser yn cael y rhain yn fuddiol gan eu bod yn fwy anodd eu dilyn ac roedd yn llawer mwy anodd i ofyn cwestiynau ar-lein nag yr oedd wyneb yn wyneb, gan ei bod yn aml yn anodd i ddisgrifio yn union beth oedd fy nghwestiwn. Yn ddiweddarach, cefais diwtorial wyneb yn wyneb, a oedd yn llawer mwy buddiol. Fodd bynnag, mae'r cymhwyster yn dal yn gofyn am ymrwymiad amser enfawr. Mae Mathemateg Pellach yn barhad naturiol o Fathemateg Lefel A, ac felly mae'n well eich bod wedi astudio C4 cyn i chi astudio FP1. Nid oedd hyn yn bosibl yn fy ysgol, ac o ganlyniad roedd gwneud y newid i FP1 yn anodd iawn. Fodd bynnag, erbyn i mi ddysgu FP1 ym mlwyddyn 12, roedd C4 ym mlwyddyn 13 eisoes yn ymddangos yn hawdd. Dyna efallai yw budd mwyaf Mathemateg Bellach, yw ei fod yn gwneud Mathemateg Lefel A deimlo'n gyfforddus iawn a llwyddais gael marc cyfartalog o 97% ar y cyfan!

### **Manteision astudio Mathemateg Bellach?**

Byddwn yn argymhell y cymhwyster i unrhyw un sy'n mwynhau her, ac sydd o anian mathemategol. Hefyd, os oes gofyn i chi gael gradd benodol mewn Mathemateg Bellach, byddwn yn argymhell rhaglen FMSP. Roedd angen A\* mewn Mathemateg a Mathemateg Bellach arnaf, sef marc cyfartalog o 90% mewn C3 a C4 a thri o unedau Mathemateg Bellach. Gyda chymorth FMSP yn Abertawe, rwyf wedi rhagori ar y cynnig hwn ac wedi llwyddo i fwynhau'r Mathemateg yr un pryd!